**Gwenda Thomas AC/AM**
**Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Services**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Ein cyf/Our ref MB/GT/0343/09

Peter Black AC
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

14 Hydref 2009

Annwyl Peter

**GOFAL IECHYD PARHAUS Y GIG YNG NGHYMRU**

Yn ddiweddar mewn sesiwn Cwestiynau Busnes, gwnaethoch gyfeirio at achos y ddiweddar Mrs Marjorie Eyton-Jones, oedd yn arfer byw ar Ynys Môn. Rhoddodd GIG Lloegr iawndal sylweddol i ystâd Mrs Eyton-Jones am gostau cartref gofal blaenorol. Meddyliais y byddai'n fuddiol imi wneud sylwadau ar y materion yr ydych wedi'u codi yn y sesiwn Cwestiynau Busnes gyda Carwyn Jones.

Yn groes i unrhyw beth i chi ei ddarllen, argymhelliad Awdurdod Iechyd Strategol Gogledd-orllewin Lloegr a phenderfyniad gan Ymddiriedolaethau Gofal Sylfaenol Cilgwri oedd yr achos hwn yn hytrach na chanlyniad dyfarniad cyfreithiol. Rwy'n sicr nad oes gan hyn unrhyw oblygiadau cyffredinol arnom ni nac ar ein polisïau. Mae gan Gymru a Lloegr broses i ystyried pwy sy'n gymwys i gael Gofal Iechyd Parhaus y GIG. Mae'n seiliedig ar asesiad amlddisgyblaethol ac mae panelau adolygu yn ailedrych ar achosion unigol os oes angen.

Cafodd yr achos ei ystyried gan banelau adolygu arbenigol ddwywaith yng Nghymru yn yr amser y bu Mrs Eyton-Jones yn byw yng Nghymru. Daeth y ddau banel i'r casgliad nad oedd hi'n bodloni meini prawf Gofal Iechyd Parhaus pan fu'n byw yng Nghymru.

Mae gennym fframwaith cenedlaethol i Fyrddau Iechyd Lleol ystyried pwy sy'n gymwys i gael Gofal Iechyd Parhaus yng Nghymru. Fei'i cyhoeddwyd yn 2004. Byddwn yn ystyried adolygu'r fframwaith yn fuan ac yn ymgynghori ar unrhyw newidiadau arfaethedig sy'n deillio o'r ymgynghoriad hwnnw. Ein nod yw sicrhau bod penderfyniadau ar bwy sy'n gymwys yn glir, yn deg ac yn gyson. Caiff panelau adolygu eu cynnal pan nad yw pobl yn fodlon ar ganlyniad eu cais am Ofal Iechyd Parhaus.

Rydych wedi cyfeirio o'r blaen at 4 Rhagfyr 2009 fel y dyddiad cau ar gyfer hawliadau ôl-weithredol. Mae'r dyddiad hwnnw'n berthnasol i'r achosion hynny pan ddechreuodd gofal yr unigolyn a gorffen cyn mis Ebrill 2003. Nid yw'n effeithio ar y rheini mewn cartrefi gofal ar hyn o bryd, hyd yn oed os dechreuodd eu gofal cyn mis Ebrill 2003.

Nid ydym erioed wedi bwriadu cadw'r trefniadau adolygu arbenigol i achosion cyn Ebrill 2003 mewn grym am byth. Chwe blynedd yw'r cyfnod a ystyrir yn rhesymol yn gyffredinol ar gyfer gwneud hawliad ôl-weithredol. Bydd gan bobl yr hawl o hyd i fynd â'u hachosion i'r Ombwdsmon os ydynt o'r farn bod eu hamgylchiadau yn rhai eithriadol.

Yn gywir

**Gwenda Thomas AC/AM**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Ffacs * Fax 029 2089 8635
Correspondence.Gwenda.Thomas@Wales.gsi.gov.uk